# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 22 Hydref 2025

**Yn Bresennol (o bell)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd C George, Ms H Gwenllian, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr J Hogg MBE, Mrs S Hoss, Mr GA Jones, Dr R Plummer, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd A Tinley, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Mike Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Prif Gynllunydd, Polisi Strategol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Gary Meopham (Swyddog Ystadau), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Libby Taylor (Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

[Cyfarfod ar-lein, 10.00am – 13.40pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr T Evans, M James, S Skyrme-Blackhall, a V Thomas.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Dr R Plummer fuddiant yn adroddiad 45/25, Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ar sefydlu Parc Cenedlaethol Newydd.

**Nodwyd.**

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd Hancock, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2025.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau y log gweithredu.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd D Clements â'r cyfarfod yr adeg hon.]

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Sawl cyfarfod gydag Aelodau'r Awdurdod i gynnal Adolygiad o'u Datblygiad Personol ac i ddod yn fwy cyfarwydd â'r Aelodau a'u wardiau.
- Cyfarfodydd gyda Henry Tufnell AS ac Ystâd y Goron i drafod materion y Parc Cenedlaethol.
- Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i drafod penodiad y Prif Swyddog Gweithredu.
- Gwasanaeth Dinesig y Maer yn Nhyddewi.
- Dathlu bod Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn 25 oed.
- Seminar Aelodau Cymru, a gynhaliwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri, oedd yn canolbwyntio ar y thema Adfer Byd Natur.
- Cyfarfod o Gynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol.
- Taith Gerdded y Llwybr er Llesiant, a drefnwyd gan Arweinydd Tîm Iechyd a Llesiant yr Awdurdod, i annog pobl o bob cefndir i fwynhau Llwybr yr Arfordir.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch Lynne Houlston, Parcmon yr Awdurdod, oedd wedi derbyn y Tlws Dyfrgi Arian yn ddiweddar yng Ngwobrau Noddfa'r Weinyddiaeth Amddiffyn am ei hymrwymiad hirhoedlog i reoli cadwraeth ac am helpu i gydbwyso rôl hanfodol y safle fel man hyfforddi â phwysigrwydd cenedlaethol y bywyd gwyllt sy'n byw yno a threftadaeth y safle.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau eraill yr Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fedi 2025 gerbron yr Aelodau i'w ystyried.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2024/25**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni'r Amcanion Llesiant 2024/25. Roedd yr adroddiad yn amlygu perfformiad yr Awdurdod yn y flwyddyn 2024/25 yn erbyn y gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27, y Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig, ac yn y datblygiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

O ran y Rhaglen Digwyddiadau Cyhoeddus a Chymunedol, nodwyd bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y cyfranogwyr yn y gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cadarnhaodd y Swyddog bod y gostyngiad yn y niferoedd o bosibl wedi'i achosi gan anghysondeb yn y modd y caiff y digwyddiadau eu dosbarthu, a bod gwella cysondeb yn y dosbarthu yn faes sydd dan ystyriaeth.

O ran datgarboneiddio, nodwyd bod yr Awdurdod wedi gweld cynnydd o 15% yn yr allyriadau o'i gymharu â 2023/24. Cadarnhaodd y Swyddog bod y cynnydd wedi'i achosi yn bennaf gan y gadwyn gyflenwi, adeiladau, y fflyd ac offer a chyfarpar. Dywedodd y Swyddog bod canopïau solar ar fin cael eu gosod fyddai'n gymorth i arafu'r cynnydd. Ychwanegwyd y byddai allyriadau yn cael eu monitro'n amlach yn y dyfodol i roi cyfle i Swyddogion ymyrryd os bydd angen.

Nododd Aelod bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch Gweithgareddau Hyrwyddo'r Gymraeg, a gofynnodd a oedd yr Awdurdod wedi ystyried cysylltu â'r eisteddfod fydd yn dod i'r sir yr haf nesaf i hyrwyddo'r Gymraeg a'r Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi comisiynu artist i greu dyluniad o Gadair yr eisteddfod fyddai'n amlygu nodweddion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â phecyn gwybodaeth. Cadarnhawyd y byddai manylion ynghylch yr eisteddfod hefyd yn cael eu cynnwys yn rhifyn 2026 o'r cylchgrawn O Lan i Lan / Coast to Coast, a bod gan Oriel y Parc gynlluniau i drefnu arddangosfa yn y dyfodol ar hanes yr eisteddfod. Eglurodd y Prif Weithredwr, er nad oedd y dylanwadau polisi allweddol ar gynllunio iaith yn nwylo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, y gellid cynnal trafodaethau yn y dyfodol gyda Chyngor Sir Penfro ynghylch ai gwell fyddai mynd ati ar y cyd i baratoi Strategaeth Iaith 5 mlynedd.

Bu trafodaeth i ddilyn ynghylch effaith yr Awdurdod o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac a fyddai angen atebion mwy creadigol i gynyddu effaith yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu'r Ddeddf ac wedi ymrwymo i ymgorffori'r Ddeddf yn ei holl weithgareddau. Ychwanegwyd, er gwaethaf hyn, bod heriau ariannol wedi cyfyngu ar allu'r Awdurdod rhag cael mwy o effaith.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2024/25 a dirprwyo awdurdod i'r Swyddog wneud unrhyw fân newidiadau yn ôl yr angen (e.e. gwallau teipio neu gywiriadau ffeithiol).

**8. Adroddiad ar y Taliadau Parcio Talu ac Arddangos 2026**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn amlinellu'r argymhellion ar y taliadau a godir ym meysydd parcio

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) o'r 1af o Fawrth 2026. Dywedwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cyflwyno papur fis Mehefin 2023 ar y taliadau y dylid eu codi yn y meysydd parcio lle codir tâl pan gytunodd yr Aelodau i gynyddu'r taliadau parcio talu ac arddangos (am y cyfnod codi tâl 2024) ac y dylid adolygu'r taliadau yn flynyddol, a'r strwythur prisio yn cael ei adolygu bob 3 blynedd. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u cyflwyno i'r taliadau parcio yn 2024 nac yn 2025. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r awgrymiadau diweddaraf ynglŷn â'r taliadau y dylid eu codi yn y meysydd parcio hyn, gyda rhai newidiadau wedi'u cynnig i'r strwythur prisio flwyddyn yn gynharach nag a ragwelwyd, am sawl rheswm fel y nodwyd yn y papur.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch y tâl parcio ar gyfer beiciau modur. Cadarnhaodd y Swyddog bod beiciau modur yn cael eu trin yn yr un modd â cherbydau eraill ac felly bod yr un tâl parcio yn berthnasol. Yn ogystal, eglurwyd, hyd yn oed pe bai nifer o feiciau modur wedi'u parcio mewn un bae, y byddai'n ofynnol i bob beic modur brynu tocyn parcio. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu y byddai baeau beiciau modur dynodedig yn cael eu cynnwys mewn dyluniadau meysydd parcio yn y dyfodol.

Nododd yr Aelodau yr ystyriaethau ariannol a fanylwyd yn yr adroddiad gan fod rhagolygon ariannol yr Awdurdod yn y dyfodol wedi'u clustnodi fel rhai heriol yn dilyn gostyngiad blwyddyn ar ben blwyddyn yn y cyllid craidd a chynnydd sylweddol yn y costau. Hefyd dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn mwy a mwy o geisiadau am gymhorthdal i gostau gwasanaethau ychwanegol gan ddarparwyr eraill (megis talu am doiledau mewn lleoliadau allweddol o gwmpas ardal y Parc Cenedlaethol). Cadarnhawyd bod y gyllideb ar gyfer 2025/26 yn rhagweld diffyg o £566k am y flwyddyn, a diffygion o fwy na £1m yn cael eu rhagweld am y 3 blynedd ariannol nesaf. Cytunodd yr Aelodau bod y sefyllfa'n heriol wrth i'r Awdurdod geisio cydbwyso'r sefyllfa ariannol heriol â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.

Manteisiodd Aelod ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith bod yr Awdurdod yn berchen ar rhyw 40 o feysydd parcio, a dim ond 14 ohonynt yn rhai sy'n codi tâl, oedd yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd barcio mewn rhai ardaloedd o'r Parc yn rhad ac am ddim.

Gofynnodd Aelod a ellid cysylltu tocynnau parcio tymor â chofrestri ceir i osgoi tocynnau tymor gael eu defnyddio gan ddarparwyr llety gwyliau. Cadarnhaodd y Swyddogion bod yr Awdurdod wedi defnyddio'r dull hwn o'r blaen, ond gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gwaith gweinyddol ynghyd â lefel yr ymholiadau. Ychwanegwyd mai dim ond un cerbyd ar

unrhyw un adeg allai ddefnyddio tocyn tymor, felly ystyriwyd bod y system hon yn un deg.

Nodwyd bod yr Awdurdod wedi gweithio gyda darparwr cymorth lleol i ddosbarthu nifer cyfyngedig o docynnau tymor i'r rhai sy'n wynebu caledi. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod yr Awdurdod wedi gweithio gyda PATCH oedd wedi bod yn gyfrifol am ddosbarthu'r tocynnau tymor am ddim. Ychwanegwyd bod y cynllun wedi dod i ben ar ôl blwyddyn oherwydd diffyg galw.

Awgrymwyd y dylid cynyddu'r cyfnod o 30 munud am ddim mewn ardaloedd gwledig. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddogion bod yr Awdurdod o blaid dull mwy cyson ar draws pob maes parcio.

Mynegodd Aelod bryder ynghylch y cynnydd arfaethedig yn y tâl parcio i fysiau gan ei bod yn hysbys bod bysiau yn achosi llawer o dagfeydd yn Nhyddewi, ac y bernid y gallai'r cynnydd yn y prisiau atal bysiau rhag parcio'n gyfrifol. Eglurodd y Swyddog resymeg yr Awdurdod dros y cynnydd.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cytuno ar gyfres newydd o daliadau parcio ar draws y 14 maes parcio yr Awdurdod lle codir tâl, i ddod i rym o'r 1af o Fawrth 2026.

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:58am – 12:10pm]

**9. Cais Cyngor Sir Penfro (CSP) ynghylch cyfleusterau cyhoeddus**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn amlinellu'r cais gan CSP ynghylch dwy flynedd o gyllid ychwanegol ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus ar draws y Parc Cenedlaethol. Dywedwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) wedi derbyn llythyr gan CSP yn 2023 ynghylch y cyfleusterau toiledau oedd yn egluro y byddai CSP yn cau sawl cyfleuster toiledau o gwmpas ardal y Parc pe na bai'r APC yn gallu cyfrannu'n ariannol. Eglurwyd bod yr APC, yn dilyn y llythyr hwn, wedi sefydlu Gweithgor Aelodau i ystyried y mater. Yn dilyn ymarferiad blaenoriaethu, argymhelliad terfynol y Gweithgor oedd bod yr APC yn ariannu'r cyfleusterau toiledau mewn lleoliadau dethol am ddwy flynedd (2023-2025).

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y materion oedd wedi'u clustnodi yn flaenorol gan y Gweithgor Aelodau a'r gweithgareddau perthnasol a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r argymhellion ynghylch yr ymateb i'w ddychwelyd i'r Cyngor Sir.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd y cyfleusterau toiledau a'u rôl hanfodol o wneud y Parc Cenedlaethol yn hygyrch i'r rhai sy'n dymuno ei fwynhau. Er gwaethaf hyn, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cais am gyllid pellach gan y cytunwyd yn wreiddiol y byddai APCAP yn cynorthwyo i gynnal y toiledau cyhoeddus am gyfnod byr o ddwy flynedd yn unig. Yn ogystal, nododd yr Aelodau nad oedd CSP wedi gwneud unrhyw gamau ymlaen i ddatblygu dull mwy cynaliadwy a strategol o gynnal y toiledau ers y cais cyntaf am gyllid a wnaed yn 2023. Cytunwyd bod CSP wedi colli cyfleoedd gan nad oeddent wedi gwneud cais am gyllid grant perthnasol megis o'r gronfa Y Pethau Pwysig.

Nodwyd, yn ogystal â chostau'r contract ar gyfer pob cyfleuster toiled a'r cynnydd yn y mynegai prisiau defnyddwyr, bod £2,000 y flwyddyn ychwanegol fesul toiled ar gyfer gwelliannau wedi'i gynnwys yn y cais. Cytunodd yr Aelodau i beidio â chefnogi'r cais ychwanegol am gyllid o £2,000 y flwyddyn fesul toiled gan y bernid mai CSP ddylai fod yn gyfrifol am ariannu'r gwelliannau yn y dyfodol.

Dywedwyd bod cais wedi dod i law oddi wrth Cyngor Cymuned Penalun am i'r cyfleusterau toiledau ym Maes Parcio Penalun gael eu hailagor. Awgrymwyd nad oedd cyfleusterau Penalun wedi'u clustnodi fel blaenoriaeth i'r Awdurdod yn yr ymarferiad blaenoriaethu gwreiddiol, ac nad oedd unrhyw newid sylweddol wedi bod yn yr amgylchiadau. Awgrymwyd hefyd y dylid cysylltu â Thrafnidiaeth Cymru am gymorth ariannol gan fod yr orsaf drenau yn ymyl y toiledau.

Dywedwyd bod y cyfleuster toiledau yn Saundersfoot yn cynhyrchu incwm, fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddogion y byddai CSP yn disodli'r mecanwaith talu gan nad oedd y mecanwaith presennol yn addas at y diben. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog na allai'r Awdurdod godi tâl am bob cyfleuster toiledau gan fod rhai adeiladau mewn cyflwr gwael ac na fyddai eraill yn gallu cynnal mecanwaith talu. Ychwanegwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ddyluniad cyfleusterau yn y dyfodol.

Tynnodd Aelod sylw at y diffyg tegwch o dan yr amgylchiadau presennol gan fod rhai cymunedau yn gyfrifol am ariannu eu cyfleuster toiledau lleol tra nad oedd yn ofynnol i gymunedau eraill wneud hynny. Cytunodd yr Aelodau y byddai angen dull mwy strategol i sicrhau dyfodol y toiledau ac y byddai'n briodol i'r Swyddogion nodi amodau yn eu hymateb i'r Cyngor Sir, pe bai'r cais pellach am gymorth yn cael ei gytuno. Cytunwyd y dylid awgrymu adolygiad blynyddol o'r camau ymlaen, a dirprwyo'r awdurdod i'r Swyddogion fonitro a fyddai gofyn gwneud adolygiadau ychwanegol. Ychwanegodd y Swyddog y byddai'r camau ymlaen o ran y cyfleusterau toiledau yn cael ei ychwanegu at waith yr Awdurdod ar fonitro, ac y

byddai adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio fel bod y wybodaeth ddiweddaraf yn mynd gerbron yr i'r Aelodau yn fwy cyson.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurodd y Swyddog y byddai unrhyw gymorth ariannol gan yr APC yn cael ei dynnu'n ôl pe bai unrhyw un o'r cyfleusterau yn cael eu cau.

Ar gynnig Ms H Gwenllian, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cytuno ar gyfraniad ariannol gwirfoddol i gynnal y cyfleusterau cyhoeddus o gwmpas ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro am ddwy flynedd arall.

**10. Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ddynodi Parc Cenedlaethol Newydd**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad gan CNC ar y Gorchymyn Drafft (Dynodi) a'r map arfaethedig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru. Dywedwyd bod CNC wedi cynnal proses ers 2022 i ystyried dynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Cadarnhawyd nad oedd yr Awdurdod, hyd yn hyn, wedi mynegi barn ar ddynodi Parc Cenedlaethol newydd ac nad oedd wedi ymateb i unrhyw un o'r ymgynghoriadau. Ychwanegwyd, mewn cyfarfod diweddar o Barciau Cenedlaethol Cymru, y penderfynwyd y dylai'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad presennol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision ac anfanteision y cynnig, a chytunwyd y dylid mynegi cefnogaeth yn ymateb yr Awdurdod ond hefyd pryder ynghylch y goblygiadau ariannol posibl i Barciau Cenedlaethol eraill Cymru. Awgrymwyd y dylid cyfeirio at brofiadau'r Awdurdod o ran Llywodraethu ynghyd â phwysigrwydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli cymuned y Parc newydd.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd**:

a) nodi'r ymgynghoriad gan CNC ar y Gorchymyn Drafft (Dynodi) a'r map arfaethedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru.
b) bod barn yr Aelodau yn cael ei defnyddio i lywio'r ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai hyn mewn partneriaeth â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru, oni bai bod pob un o'r tri yn methu â chytuno ar ymateb ar y cyd. Os hynny, byddai'r Awdurdod yn cyflwyno ei ymateb ei hun.
c) bod y dasg o gytuno ar ymateb yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr drwy ymgynghori â'r Cadeirydd (gan fod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar yr 8fed o Ragfyr.

[Gadawodd y Cynghorydd A Tinley y cyfarfod yr adeg hon.]

**11. Adroddiad Monitro Blynyddol 2024-2025 ar Gynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio adroddiad oedd yn ceisio cytundeb yr Aelodau i gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol am y flwyddyn 2024/25 (Adroddiad 4) i Lywodraeth Cymru ac i gymeradwyo'r ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad Monitro 2023/24. Dywedwyd bod yr Adroddiad Monitro yn asesu i ba raddau yr oedd strategaeth a pholisïau CDLl 2 yn cael eu cyflawni drwy fesur amrywiol ddangosyddion i asesu perfformiad polisïau cynllunio unigol fel y'u nodir yn y CDLl a fabwysiadwyd. Roedd yr adroddiad yn rhoi portread cyffredinol o'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc Cenedlaethol.

Er gwaethaf y data cadarnhaol yn yr adroddiad, cwestiynodd Aelod a oedd polisïau'r Awdurdod yn mynd yn ddigon pell i hyrwyddo adfer cynefinoedd ar raddfa fawr. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog bod y broses o ddatblygu CDLl 3 wedi dechrau ac felly bod gan Swyddogion y cyfle i gasglu data i lywio'r cynllun nesaf i wneud y mwyaf o fuddiannau bioamrywiaeth. Ychwanegwyd bod newid sylweddol wedi bod yn y ddeddfwriaeth ers datblygu CDLl 2, oedd bellach yn galluogi Swyddogion i fynnu budd net ar gyfer bioamrywiaeth ym mhob datblygiad, ac y byddai CDLl 3 yn amlygu’r newidiadau hyn. Ychwanegodd y Swyddog y byddai’r gwaith o ddatblygu’r CDLl nesaf yn cael ei rannu gyda’r Aelodau mewn gweithdai yn y dyfodol.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd**:

a) bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2024/25 ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2025.
b) bod yr ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad Monitro Blynyddol 2023/24 yn cael eu cymeradwyo.

[Ymunodd y Cynghorydd S Alderman â'r cyfarfod yr adeg hon. Gadawodd y Cynghorydd C Williams y cyfarfod yr adeg hon].

**12. Adroddiad Diogelu Blynyddol 2024/25**

Roedd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant wedi cyflwyno adroddiad oedd yn rhoi sicrwydd parhaus i'r Aelodau bod y prosesau a'r systemau sydd mewn lle ar gyfer rheoli Diogelu o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn parhau i fod yn effeithiol.

Eglurodd y Swyddog bod data wedi'i hepgor o’r adran ar y trefniadau hyfforddi, a chadarnhawyd bod 195 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant

diogelu, a 7 arall wrthi yn cwblhau hyfforddiant diweddaru. Cadarnhaodd y Swyddog bod 38 o staff hyd yn hyn wedi cwblhau'r hyfforddiant ar Recriwtio Mwy Diogel gyda mwy o sesiynau wedi'u trefnu. Cadarnhawyd bod Grŵp yr Awdurdod ar Ddiogelu yn cynnal Hyfforddiant Grŵp C Gofal Cymdeithasol Cymru a fwriedir ar gyfer y rhai sy'n rheoli Diogelu o fewn sefydliad. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog nad oedd hyfforddiant Diogelu yn orfodol i wirfoddolwyr ar hyn o bryd ond bod hyn yn cael ei adolygu.

Manteisiodd y Swyddog ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw ddigwyddiadau diogelu wedi'u dwyn i sylw'r Awdurdod.

**Nodwyd.**

**13. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024/25**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb oedd yn amlinellu'r camau ymlaen a gymerwyd gan yr Awdurdod yn 2024/25 tuag at gyflawni'r Amcanion a nodir yng Nghynllun ac Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod 2020-2024. Dywedwyd bod yr Aelodau wedi cymeradwyo set wedi'i diweddaru o Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig 2025-2029 yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Mawrth 2025 ac y byddai adroddiad y flwyddyn nesaf yn cael ei asesu yn erbyn y Cynllun newydd.

Dywedwyd bod Fforwm Pwyllgor Ieuenctid wedi'i sefydlu fel rhan o Weithgareddau'r Genhedlaeth Nesaf, a gofynnodd Aelod am fanylion pellach ynghylch lefel yr ymgysylltu â'r ifainc. Cytunodd y Swyddog i gysylltu â'r Swyddog priodol i nodi'n union pa gyfleoedd ymgysylltu â'r ieuenctid a gynigir gan yr Awdurdod, a'r modd y gallwn sicrhau bod yr ymgysylltu drwy'r cyfleoedd hynny yn dylanwadu ar waith ehangach yr Awdurdod.

Nodwyd bod yr heriau i'r Awdurdod yn parhau o ran bod bylchau yn y data monitro cydraddoldeb yn y gweithlu oedd wedi effeithio ar y dadansoddiad o flwyddyn i flwyddyn ac ar broffil y gweithlu. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurodd y Swyddog bod cyflwyno'r wybodaeth hon yn wirfoddol i'r staff, fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod angen gwaith pellach i wneud y ffurflen data cydraddoldeb yn fwy hygyrch ac i gyfleu i'r staff pa mor bwysig yw'r data, a'r modd y byddai'r data yn cael ei ddefnyddio.

O ran y data ar recriwtio a'r gweithlu, nodwyd bod yr Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr 40 oed ac iau. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod newid wedi bod mewn ymddygiad recriwtio oedd wedi arwain at y cynnydd.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024/25, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddogion wneud mân newidiadau yn ôl yr angen (e.e. camgymeriadau teipio neu gywiriadau ffeithiol).

**14. Llythyr Grant Strategol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 2025/26: Fframwaith Adrodd**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn amlinellu'r Fframwaith newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd a wnaed ar y meysydd gwaith sydd wedi'u cynnwys yn Llythyr Grant Strategol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 2025/26. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dod â mwy o eglurder ar gyflwyno adroddiadau drwy gytuno ar ddangosyddion newydd.

Nododd yr Aelodau y Fframwaith, a chynigiwyd awgrym y dylid cyfeirio at yr effeithiau cadarnhaol ar y dolydd a'r glaswelltiroedd yn y dangosydd ar atafaelu carbon.

**Nodwyd.**

**15. Aelodaeth o'r Pwyllgorau Disgyblu, Cwynion ac Apêl**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau ar aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apêl.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apêl, fel y'u nodir yn yr adroddiad.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2025:<br>O ran cyhoeddiadau'r Cadeirydd, eglurodd y Cadeirydd bod y trafodaethau gyda Henry Tufnell AS ac Ystâd y Goron wedi bod yn ddau gyfarfod ar wahân. |